


STRATEGAETH IECHYD A GOFAL I BOWYS

GWELEDIGAETH
HYD 2027 A THU
HWNT

(FERSIWN GRYN 2, MEHEFIN 2017)





CYNNWYS

Croeso i'r Weledigaeth ar gyfer Iechyd a Gofal ym Mhowys hyd 2027 a thu hwnt...	3
Strategaeth ar gyfer y dyfodol	4
'Cipolwg' ar y Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys	5
Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?.....	6
Yn gwrando ar bobl Powys.....	7
Yr hyn y mae pobl Powys wedi'i ddweud	8
Pa egwyddorion ddylai ein harwain?	10
Gweledigaeth ar gyfer Powys iach a gofalgarn	12
Ein dull o weithredu.....	13
Gwireddu'r weledigaeth gydol oes pobl Powys	14
Fe fydd Iechyd a Gofal yn y dyfodol ym Mhowys yn gwella trwy.....	17
Cadw Mewn Cysylltiad	18
Sut y gwnaethon ni ddatblygu ein Strategaeth yn ystod 2016/17	19

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r Strategaeth Iechyd a Gofal hyd 2027 a thu hwnt.

Mae rhagor o wybodaeth yn:

www.biapowys.cymru.nhs.uk/strategaeth-iechyd-a-gofal.

Gwelwch dudalen 18 i gael y manylion.

CROESO I'R WELEDIGAETH AR GYFER IECHYD A GOFAL YM MHOWYS HYD 2027 A THU HWNT...

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein Strategaeth Iechyd a Gofal integredig gyntaf ar gyfer Powys. Mae'n adeiladu ar filoedd o sgysiauw rhwng pobl Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cyngor Sir Powys a phartneriaid allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n amser llawn her, yn enwedig o ystyried y cyfnod maith o ddarbodaeth ac anghenion newidiol pobl Powys. Rydwn ni'n gwybod bod pobl ym Mhowys yn byw bywydau hirach ac iachach nag mewn mannau eraill yng Nghymru.

Rydwn ni hefyd yn gwybod bod Powys yn rhywle lle rydwn ni'n dyheu am helpu i wella lles pawb. Dyna pam fod gan y strategaeth hon nod i alluogi plant a phobl ifanc i gael 'Dechrau Da', i bobl 'Fyw'n Dda' ac i bobl hŷn 'Heneiddio'n Dda'.

Er nad yw'n disgrifio'r datblygiadau'n fanwl ar hyn o bryd—bydd hyn yn dilyn yn ystod 2017/18—mae'n amlinellu'r cyfeiriad rydwn ni'n teimlo sy'n bwysig inni fynd iddo. Hybu lles; cynnig help a chefnogaeth gynnar i bobl; mynd i'r afael â'r pedwar clefyd mawr sy'n cyfyngu ar fywyd (canser, clefydau cylchrediad y gwaed, iechyd meddwl, clefydau anadlu); a darparu gofal cydgysylltiedig yw'r meysydd allweddol rydwn ni'n awgrymu y dylen nhw ddod yn flaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Mae hyn yn golygu y byddwn ni'n treulio mwy o amser ac ymdrech yn helpu pobl i gadw'n iach, i'w helpu nhw i gymryd camau cynnar i atal iechyd gwael ac i gael cymorth a, lle bo galw am ofal a thriniaeth, ein bod ni'n gweithio gyda phobl i sicrhau bod gofal yn gydgyssylltiedig a'i fod wedi'i seilio ar y pethau sydd o'r pwys mwyaf i'r unigolyn.

Rydwn ni hefyd eisiau darparu cymaint o iechyd a gofal â phosibl ym Mhowys. Cafwyd llwyddiant go iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth gyflwyno gwasanaethau newydd, ac rydwn ni o'r farn y gallem ni—wrth i dechnoleg newydd ddatblygu, er enghraifft—wneud mwy ym Mhowys. Rydwn ni'n gwybod y bydd angen i rai pobl barhau i deithio am wasanaethau y tu allan i'r sir, ond fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd gwell lle bynnag bo hynny'n bosibl.

Fe hoffem ni ddiolch i bawb fu'n helpu i siapia'r strategaeth hon hyd yma. Rydwn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda chi yn ystod 2017/18 i roi hyn ar waith mewn trefi a chymunedau ledled y sir.

**Yr Athro Viv Harpwood,
Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

**Y Cyngorydd Rosemarie Harris,
Arweinydd, Cyngor Sir Powys**



STRATEGAETH AR GYFER Y DYFODOL


Pam fod angen i ni gael strategaeth ar gyfer y dyfodol? Mae cymaint wedi newid dros y deng mlynedd diwethaf—dronau, ffonau clyfar, darbodaeth. Fe fyddwn ni'n gweld mwy fyth o newidiadau yn y deng mlynedd nesaf. Mae yna rai newidiadau y gallwn ni eu rhagweld. Fe fydd eraill yn ein dal yn annisgwyl.

Ond yn bendant, mae angen inni gydweithio i greu dyfodol lle mae pawb ym Mhowys yn cael y cyfle gorau i fyw bywydau iach, llawn ac annibynnol, lle mae pobl yn dyheu am fyw, dysgu a ffynnu. Rydych chi wedi bod yn rhannu'ch meddyliau ynglŷn â'r newidiadau sydd o'n blaenau, a dyma'r prif themâu.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar yr hyn y mae pobl Powys wedi'i ddweud am eu hiechyd a'u gofal—mewn arolygon defnyddwyr gwasanaeth, cwynion, canmoliaethau, digwyddiadau ymgysylltu, cynadleddau a fforymau defnyddwyr gwasanaeth.

Mae hyn yn cynnwys digwyddiad Dyfodol Iechyd a Gofal ym mis Rhagfyr 2016, ac mae'r "cofnodion gweledol" o'r digwyddiad hwn wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon drwyddi draw.

Cynigiwyd y cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan yn naill ai'r Saesneg neu'r Gymraeg, ac mae'r delweddau hyn yn adlewyrchu'r iaith a ddewiswyd.



'CIPOLWG' AR Y STRATEGAETH IECHYD A GOFAL AR GYFER POWYS



RYDYN NI'N DATBLYGU
GWELEDIGAETH AR GYFER
DYFODOL IECHYD A
GOFAL YM MHOWYS...



ARWEINYDD YM MAES IECHYD A GOFAL GWLEDIG INTEGRIDIG



HYD
2027
A THU
HWYT...







EIN NOD YW CYFLAWNI'R
WELEDIGAETH HON
GYDOL OES POBL
POWYS...




FE FYDDWN NI'N
CEFNOGI POBL I
WELLA'U HIECHYD
A'U LLES TRWY...



FE FYDD EGWYDDORION
EGLUR WRTH WRAIDD
EIN BLAENORIAETHAU
A'R CAMAU Y BYDDWN
NI'N EU CYMRWD...



FE FYDD DYFODOL
IECHYD A GOFAL YN
GWELLA TRWY...




DYFODOL Y GWEITHLU



AMGYLCHEDDAU ARLOESOL



DIGIDOL YN GYNTAF









TRAWSNEWID MEWN PARTNERIAETH

BETH YW'R SEFYLLFA AR HYN O BRYD?

- Mae pobl yn byw yn hirach, ond nid yw'r blynyddoedd hynny bob amser yn rhai iach.
- Mae triniaethau newydd yn cael eu datblygu a allai helpu mwy o bobl, ond maen nhw'n ddrud.
- Mae technoleg wedi datblygu cymaint. Mae hyn yn golygu bod y ffordd y gellir darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a'r ffordd y gellir cefnogi pobl, yn newid.
- Mae'r gweithlu wedi newid – mae yna brinderau yn nifer o'r meysydd proffesiynol (fel gweithwyr gofal a meddygon) ac mae'n debygol y bydd hyn yn parhau am gryn amser.
- Mae llawer o adeiladau lleol yn hen ac yn anaddas i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal modern.
- Mae darbodaeth, a fforddiadwyedd a chynaliadwyedd y gwasanaethau presennol, yn wir broblem – ni all gwasanaethau aros yr un fath.
- Mae yna fwy o gyfleoedd i gefnogi pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.
- Mae yna sail wirfoddoli gref ym Mhowys, sydd o fudd mawr iawn, ond fe allai hyn ddiflannu os na fyddwn ni'n cymryd camau i'w gynnal.
- Mae yna amrywiad yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ledled y sir. Mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu y tu allan i Bowys, ac mae pobl yn dibynnu ar wasanaethau o amgylch ffiniau'r sir. Mae'n gallu bod yn her cael mynediad i wasanaethau.
- Mae llawer o'r gwasanaethau o amgylch ffiniau'r sir yn newid. Mae rhai gwasanaethau Ysbytai Cyffredinol Dosbarth yn dod yn fwy arbenigol tra bo modd darparu eraill yn fwy lleol.
- Mae newidiadau yn y boblogaeth yn golygu y bydd yna fwy o bobl hŷn a llai o bobl ifanc ym Mhowys yn y dyfodol.
- Mae disgwyliadau oes pobl yn wahanol, gan ddibynnu ar eu hincwm a'r lle y maen nhw'n byw, sy'n annheg.



[illegible]

YR HYN Y MAE POBL POWYS WEDI'I DDWEUD...

"Gwnes i ddysgu am reoli fy null o fyw, am atal ail byliau o salwch ac am ymyrraeth gynnar trwy fod yn ymwybodol o'r pethau sy'n sbarduno'r salwch ac o'r arwyddion rhybuddio cynnar. Fe newidiodd y rhaglen yma fy mywyd a dwi bron yn sicr ei bod wedi achub fy mywyd. Dwi nawr yn rheoli fy anhwylder deubegynol yn lle dim ond ymdopi ag ef."

(Defnyddiwr Gwasanaeth)

Rhoi pobl yn gyntaf

"Rhoi sylw i anghenion gofalwyr"
"Rhoi anghenion dinasyddion, a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, wrth galon eich cynlluniau" "Goresgyn rhwystrau i bobl sydd â nam ar eu synhwyrâu, anableddau ac anghenion eraill o ran mynediad"
"Darparu gwasanaethau yn Gymraeg"
"Gwrando arnon ni a'n parchu".

"Byddai'n helpu pe baech chi'n gallu mynd am ryw ymarfer corff ysgafn sydd wedi'i drefnu'n benodol ar gyfer pobl hŷn, yn y gymuned. Byddai'n eich cadw chi'n symud"

(Defnyddiwr Gwasanaeth)

Defnyddio technoleg yn well:

"Defnyddio mwy ar dechnoleg a'i defnyddio'n well" "Mae angen cysylltiadau gwell mewn gwasanaethau ac yn y cartref trwy Fand Eang, 4G ac ati" "Mae angen cymorth arnon ni i ddefnyddio technoleg".

Sicrhau bod gwybodaeth a chyngor o fewn cyrraedd gwell

"Rhoi gwybod i bobl am y pethau y gallan nhw eu gwneud i gadw eu hunain yn iach"
"Codi ymwybyddiaeth ac arwain pobl at y wybodaeth a'r gefnogaeth iawn i gael help yn gynt".

YR HYN Y MAE POBL POWYS WEDI'I DDWEUD...

"Mae angen i wasanaethau fod ar gael yn Gymraeg heb orfod gofyn, yn ogystal â'r egwyddor nad oes camwahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd eu bod nhw'n byw mewn ardal wledig."

(Defnyddiwr Gwasanaeth)

Cydlynu a chydgyssylltu gwasanaethau

"Caniatáu rhannu gwybodaeth yn ddiogel"
"Lleoli gwasanaethau fel bod yna lai o alw am nifer o wahanol apwyntiadau, a chaniatáu i mi weld gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol mewn un lle" "Cynllunio gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n helpu pobl i gydweithio".

"Cofiwch. Pan mae pobl ifanc yn dod am help, maen nhw'n aml yn ofnus. Efallai eich bod chi'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd nesaf, ond dydyn nhw ddim yn gwybod."

**(Defnyddiwr
Gwasanaeth)**

Sicrhau bod gwasanaethau a thrafnidiaeth o fewn cyrraedd gwell


"Nid yw'n hawdd i mi deithio i'r dref neu i'r ysbyty" "Nid oes gen i gar ac mae'n anodd i mi ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus"
"Mae mwyafrif y gwasanaethau ysbyty y tu allan i'r sir" "Dwi'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar ofal iechyd o amgylch fy ymrwymïadau gwaith a gofal".

Gwasanaethau lleol

"Darparu gwasanaethau'n lleol lle bo'n bosibl" "Ystyried cael ysbyty cyffredinol dosbarth ym Mhowys" "Dod â gwasanaethau ynghyd mewn hybiau cymunedol" "Cysylltu iechyd a gofal â gweithgareddau cymunedol" "Fy helpu i atal problemau iechyd a gofal rhag codi".

PA EGWYDDORION DDYLAI EIN HARWAIN?

Ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i glywed, rydyn ni wedi nodi chwe egwyddor a fydd yn ein harwain wrth inni greu dyfodol iach a ffyniannus ar gyfer pobl a chymunedau Powys. Mae cyflawni ein gweledigaeth yn golygu dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng y chwe egwyddor hyn.




EGWYDDOR 1. GWNEUD BETH SY'N BWYSIG

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar 'Beth Sy'n Bwysig' i bobl. Fe fyddwn ni'n cydweithio i gynllunio gofal a chymorth wedi'i bersonoli, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i'r unigolyn.



EGWYDDOR 2. GWNEUD BETH SY'N GWEITHIO

Fe fyddwn ni'n darparu gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar 'beth sy'n gweithio', ar sail tystiolaeth, gwerthusiad ac adborth. Fe fyddwn ni'n cael sgysiau gonest ynglŷn â sut rydyn ni'n defnyddio adnoddau.




EGWYDDOR 3. CANOLBWYNTIO AR YR ANGEN MWYAF

Fe fyddwn ni'n canolbwyntio adnoddau ar y rheiny sydd â'r angen mwyaf am help a chefnogaeth, mewn ffordd sy'n ystyried cenedlaethau'r dyfodol.

PA EGWYDDORION DDYLAI EIN HARWAIN?

Ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i glywed, rydyn ni wedi nodi chwe egwyddor a fydd yn ein harwain wrth inni greu dyfodol iach a ffyniannus ar gyfer pobl a chymunedau Powys. Mae cyflawni ein gweledigaeth yn golygu dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng y chwe egwyddor hyn.




EGWYDDOR 4. SICRHAU BOD GWASANAETHAU O FEWN CYRRAEDD TEG

Fe fyddwn ni'n sicrhau bod gofal arbenigol a thriniaethau a thechnolegau newydd o fewn cyrraedd teg, gan helpu i gyflawni Powys fwy cyfartal a chydabod heriau gwledig.



EGWYDDOR 5. BOD YN DDARBODUS

Fe fyddwn ni'n defnyddio adnoddau cyhoeddus yn ddoeth fel bod gwasanaethau iechyd a gofal dim ond yn gwneud y pethau mai dim ond y nhw sy'n gallu eu gwneud, gan gefnogi pobl i fod yn bartneriaid cyfartal a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a'u gofal.



EGWYDDOR 6. GWEITHIO GYDA PHOBL A CHYMUNEDAU

Fe fyddwn ni'n gweithio gydag unigolion a chymunedau i ddefnyddio'u holl gryfderau mewn ffordd sy'n sicrhau'r iechyd a'r gofal gorau posibl i bawb, gan ganolbwyntio ar bob cam o fywyd — Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.


GWELEDIGAETH AR GYFER POWYS IACH A GOFALGAR

- FE FYDDWN NI'N RHOI POBL POWYS YN GYNTAF

- FE FYDDWN NI'N DEFNYDDIO 'PUNT POWYS' I'R EITHAF

- FE FYDD POBL YN DEWIS POWYS FEL LLE I HYFFORDDI, GWEITHIO A BYW

- FE FYDD POWYS YN ARWAIN Y Ffordd O RAN IECHYD A GOFAL GWLEDIG EFFEITHIOL, INTEGREDIG



- FE FYDDWN NI'N YN "GYNTAF YN Y DOSBARTH" O RAN GWELLA IECHYD A LLES

- FE FYDDWN NI'N CANOLBWYNTIO AR ANGHYDRADDOLDEBAU YM MHOWYS AC AR BOBL Â'R ANGEN MWYAF

- FE FYDDWN NI'N DARPARU GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL YM MHOWYS LLE BYNNAG Y BO HYNNY'N BOSIBL

EIN DULL O WEITHREDU

Ein bwriad yw gwireddu'r weledigaeth gydol oes pobl Powys. Mae gan y strategaeth hon nod i alluogi plant a phobl ifanc i gael 'Dechrau Da', i bobl 'Fyw'n Dda' ac i bobl hŷn 'Heneiddio'n Dda'.




4 MAES ALLWEDDOL


Fe fydd ein gwaith yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- hybu lles
- cynnig help a chefnogaeth gynnar i bobl
- mynd i'r afael â'r pedwar clefyd mawr sy'n cyfyngu ar fywyd (canser, clefydau cylchrediad y gwaed, iechyd meddwl, clefydau anadlu)
- darparu gofal cydgysylltiedig.

Ar Dudalennau 14 i 16, rydyn ni wedi darparu enghreifftiau o'r ffyrdd y byddwn ni'n cefnogi pobl yn ystod pob un o'r tri chyfnod mewn bywyd.




1. CANOLBWYNTIO AR LES



2. HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR



3. MYND I'R AFAEL Â'R 'PEDWAR MAWR'



4. GOFAL CYDGYSYLLTIEDIG

GWIREDDU'R WELEDIGAETH GYDOL OES POBL POWYS




DECHRAU DA

BYW'N DDA


HENEIDDIO'N DDA

DYMA RAI ENGHREIFFTIAU O SUT Y BYDDWN NI'N CEFNOGI POBL I GAEL DECHRAU DA...




CANOLBWYNTIO AR LES

- Fe fyddwn ni'n darparu hybiau cymunedol integredig gydag addysg, cymunedau a'r sector gwirfoddol, gan sicrhau gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol.
- Fe fyddwn ni'n datblygu rhaglen holistaidd gyda chymunedau i gefnogi chwarae a gweithgareddau i'r meddwl a'r corff, gan ddefnyddio mannau gwyrdd awyr agored.




HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR

- Fe fyddwn ni'n buddsoddi mewn cymorth emosiynol ac ymddygiadol i deuluoedd, plant a phobl ifanc er mwyn eu helpu nhw i ymdopi a'u cefnogi yn y cyfnod hwnnw pan maen nhw'n dod yn oedolion.
- Fe fyddwn ni'n cael effaith mor bositif â phosibl o fewn y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn, gan ganolbwyntio ar atal profiadau niweidiol mewn plentynod.
- Fe fyddwn ni'n targedu adnoddau at deuluoedd dan anfantais.
- Fe fyddwn ni'n cefnogi ac yn cynorthwyo gofalmwr ifanc.



MYND I'R AFAEL Â'R 'PEDWAR MAWR'

- Fe fyddwn ni'n cefnogi plant a theuluoedd i greu sylfeini iechyd da drwy gydol eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys pwysau iach, diet a gweithgarwch positif, y gallu i ymdopi'n bersonol ac â pherthnasoedd, a chamau eraill a fydd yn lleihau'r risg o ddatblygu'r pedwar prif beth sy'n achosi iechyd gwael a marwolaethau cyn pryd yn ddiweddarach mewn bywyd:
 - canser
 - clefydau cylchrediad y gwaed
 - clefydau anadlu
 - problemau iechyd meddwl



GOFAL CYDGYSYLLTIEDIG

- Fe fyddwn ni'n cynnig profiad cwbl integredig o iechyd a gofal i bobl ifanc a theuluoedd.
- Fe fyddwn ni'n sicrhau bod iechyd a gofal yn gweithio'n agos â darparwyr addysg i gefnogi pobl ifanc a datblygu ymddygiadau iach.
- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu diogelu.

GWIREDDU'R WELEDIGAETH GYDOL OES POBL POWYS

DECHRAU DA



BYW'N DDA


HENEIDDIO'N DDA

DYMA RAI ENGHREIFFTIAU O SUT Y BYDDWN NI'N CEFNOGI POBL I FYW'N DDA...




CANOLBWYNTIO AR LES

- Fe fyddwn ni'n grymuso pobl i wneud dewisiadau deallus ar sail gwybodaeth sydd wedi'i theilwra ac sy'n eu galluogi nhw i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac yn canolbwyntio ar greu amgylchedd sy'n gwneud y dewis iach yn ddewis haws.
- Fe fyddwn ni'n defnyddio cryfderau cymunedol a'r amgylchedd ffisegol i'r eithaf i gefnogi pobl i gynnal eu hiechyd a'u lles.




HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR

- Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar i gefnogi annibyniaeth a chyfranogiad pobl â nam ar eu synhwyrâu, anableddau corfforol, anawsterau dysgu a chyflyrau eraill.
- Fe fyddwn ni'n cefnogi pobl i fod yn annibynnol ac yn weithgar yn eu cymunedau.
- Fe fyddwn ni'n nodi'n gynt y bobl hynny sydd mewn risg o ddatblygu clefyd, a byddwn ni'n eu helpu nhw i leihau'r risg a'r effaith.
- Fe fyddwn ni'n canolbwyntio ar weithgareddau sy'n lleihau'r angen am lawdriniaethau ac yn gwella canlyniadau ar ôl llawdriniaeth.



MYND I'R AFAEL Â'R 'PEDWAR MAWR'

- Fe fyddwn ni'n datblygu gwasanaethau effeithiol i drin a chefnogi pobl sy'n dioddef o'r pedwar prif beth sy'n achosi iechyd gwael a marwolaethau cyn pryd ym Mhowys :
 - cancer
 - clefydau cylchrediad y gwaed
 - clefydau anadlu
 - problemau iechyd meddwl
- Fe fyddwn ni hefyd yn datblygu cymorth i leihau effaith a nifer yr achosion o glefydau yn ddiweddarach mewn bywyd.



GOFAL CYDGYSYLLTIEDIG

- Fe fyddwn ni'n cynnig dull mwy cyd-drefnus o fynd ati i reoli cyflyrau tymor hir sy'n rhoi cyfle i bawb adeiladu ar eu cryfderau.
- Fe fyddwn ni'n datblygu gwasanaeth sy'n gweddu i fywydau prysur pobl – gan ddarparu dewis a gwasanaethau hygyrch a theg yn fwy lleol.
- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu trigolion.

GWIREDDU'R WELEDIGAETH GYDOL OES POBL POWYS


DECHRAU DA

BYW'N DDA




HENEIDDIO'N DDA

DYMA RAI ENGHREIFFTIAU O SUT Y BYDDWN NI'N CEFNOGI POBL I HENEIDDIO'N DDA...




CANOLBWYNTIO AR LES

- Fe fyddwn ni'n cefnogi pobl hŷn i fod mor egniol â phosibl, trwy wirfoddoli a gwneud ymarferion y corff a'r meddwl.
- Fe fyddwn ni'n annog pobl i gynllunio ar gyfer eu dyfodol, a chymryd camau sy'n lleihau cynnydd a nifer yr achosion o gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, fel dementia.
- Fe fyddwn ni'n cefnogi amrywiaeth o opsiynau llety ac yn sicrhau eu bod nhw'n hygyrch i bobl wrth iddyn nhw heneiddio.




HELP A CHEFNOGAETH GYNNAR

- Fe fyddwn ni'n defnyddio technoleg fel bod pobl hŷn yn gallu gofalu am eu hunain ac aros yn annibynnol, ac i annog mwy o gynhwysiant cymdeithasol.
- I ofalwyr, fe fyddwn ni'n parhau i ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion holistaidd y teulu ac i ddarparu gofal seibiant digonol.
- Fe fyddwn ni'n helpu pobl i drechu unigrwydd ac allgáu cymdeithasol ac i fod yn aelod gweithgar o'u cymuned.



MYND I'R AFAEL Â'R 'PEDWAR MAWR'

- Fe fyddwn ni'n datblygu gwasanaethau effeithiol i drin a chefnogi pobl sy'n dioddef o'r pedwar prif beth sy'n achosi iechyd gwael a marwolaethau cyn pryd ym Mhowys:
 - canser
 - clefydau cylchrediad y gwaed
 - clefydau anadlu
 - problemau iechyd meddwl
- Fe fyddwn ni hefyd yn datblygu cymorth i leihau effaith a nifer yr achosion o glefydau yn ddiweddarach mewn bywyd.




GOAL CYDGYSYLLTIEDIG

- Fe fyddwn ni'n cefnogi timau iechyd a gofal i weithio'n ddi-dor gyda phobl hŷn i gael pethau'n iawn y tro cyntaf ac i atal anghenion rhag gwaethygu.
- Fe fyddwn ni'n adolygu'r gwasanaethau iechyd a gofal presennol ac yn buddsoddi mewn amgylcheddau iechyd a gofal a fydd yn diwallu anghenion yn y dyfodol – gan ddarparu dewis a gwasanaethau hygyrch a chyd-drefnus.
- Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu trigolion.

DYFODOL Y GWEITHLU

- Cefnogi pobl i weithio'n hirach, gan sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn cael eu trosglwyddo.
- Cefnogi ein gweithlu i ddatblygu modelau gofal arloesol mewn amgylchedd gwledig trwy addysg, ymchwil, hyfforddiant a thechnoleg.
- Cefnogi trydydd sector ffyniannus ac economi graidd.



- Tyfu gweithlu Powys trwy hyfforddi a datblygu lleol.
- Fe fydd y gweithlu iechyd a gofal yn hyblyg i ymateb i anghenion pobl yn amserol.
- Hybu lles yn y gweithle.

AMGYLCHEDDAU ARLOESOL

- Datblygu "hybiau cymunedol" integredig sy'n darparu "siop un stop" i bobl leol, a hefyd defnyddio cyfleusterau ac asedau cymunedol i gryfhau'r modd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal lleol.
- Llety sy'n briodol ac yn diwallu angen.
- Mynd i'r afael â chyfleusterau o ansawdd gwael ar gyfer gwasanaethau




- Iechyd a gofal, gan ddarparu amgylchedd gofal ac amgylchedd gweithio modern sy'n gwneud pobl yn falch.
- Datblygu canolfannau rhanbarthol gwledig ym Mhowys i alluogi darparu cymaint o iechyd a gofal integredig â phosibl yn y sir.

FE FYDD IECHYD A GOFAL YN Y DYFODOL YM MHOWYS YN GWELLA TRWY...

DIGIDOL YN GYNTAF


- Fe fydd technoleg a theleofal yn cefnogi pobl i fod yn annibynnol.
- Fe fydd telefeddygaeth a chyfathrebu trwy we-gamerâu (e.e. Skype) yn dod â sgiliau a gwybodaeth arbenigwyr o bell i bobl ym Mhowys.
- Fe fydd gwybodaeth, a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth, yn galluogi pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb a gwneud dewisiadau deallus.



- Fe fydd datblygiadau newydd mewn technoleg yn galluogi gwneud mwy o brofion diagnostig lleol ym Mhowys.
- Cydweithio i gefnogi pobl i ddefnyddio technoleg.

TRAWSNEWID MEWN PARTNERIAETH

- Cryfhau'r ymgysylltu ag unigolion, teuluoedd, cymunedau a phartneriaid ar draws y sector gwirfoddol, y sector statudol a'r sector busnes trwy gynllunio ar sail ardal.
- Chwalu rhwystrau hanesyddol rhwng sefydliadau, gan weithio mewn ffordd fwy integredig i ymateb i anghenion



- holistaidd pobl.
- Gwella gwasanaethau ar sail yr hynny sy'n gweithio'n dda.
- Gwella'r comisiynu i ddarparu mwy o wasanaethau yn y sir, a chynnig gwell parhad gofal yn achos gwasanaethau a ddarperir y tu allan i'r sir.



CADW MEWN CYSYLLTIAD

Mae mewnwelediadau miloedd o bobl a phartneriaid ledled Powys wedi dylanwadu ar y strategaeth hon ac wedi darparu sail ar ei chyfer. Yn ystod 2017/18 fe fyddwn ni'n dechrau ei rhoi ar waith. Fe fyddwn ni'n parhau i weithio gyda chi i wneud beth sy'n bwysig, gwneud beth sy'n gweithio, canolbwyntio ar yr angen mwyaf, sicrhau bod gwasanaethau o fewn cyrraedd teg, bod yn ddarbodus a gweithio gyda phobl a chymunedau.


Mae ein Gweledigaeth ar gyfer Powys lach a Gofalgar wedi'i datblygu gyda chi – pobl Powys. Mae angen i chi hefyd siapio'r camau nesaf.

Yn ystod 2017/18, rydyn ni'n cynllunio cyfres o ddigwyddiadau a gweithgareddau fel eich bod chi'n gallu'n helpu ni i benderfynu ar ein blaenoriaethau i Ganolbwyntio ar Les, darparu Help a Chefnogaeth Gynnar, Mynd i'r Afael â'r Pedwar Clefyd Mawr sy'n cyfyngu ar fywyd, a sicrhau Gofal Cydgysylltiedig.

Fe fydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chi i ddatblygu opsiynau a chynigion clir gydol oes – gan helpu pobl Powys i gael Dechrau Da, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda.

Fe fyddwn ni hefyd yn dechrau rhoi'r sylfeini iawn ar waith ar gyfer y dyfodol. Felly, yn ystod 2017/18 fe fyddwn ni hefyd yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynlluniau mwy manwl ar gyfer:

- Amgylcheddau Arloesol
- Digidol yn Gyntaf
- Dyfodol y Gweithlu, a
- Thrawsnewid mewn Partneriaeth.



Os hoffech chi gadw mewn cysylltiad, a chael eich ychwanegu at ein cronfa ddata i dderbyn rhagor o wybodaeth a chymryd rhan mewn digwyddiadau yn y dyfodol:

- Gallwch chi weld mwy am hyn ar www.biapowys.cymru.nhs.uk/strategaeth-iechyd-a-gofal
- Gallwch chi ymuno â'r ddadl ar Twitter trwy @PTHBHealth #PowysHCS
- Gallwch chi anfon e-bost atom ni yn powys.engagement@wales.nhs.uk
- Gallwch chi ysgrifennu atom ni yn Tîm Strategaeth Iechyd a Gofal, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Ysbyty Bronllys, Bronllys, Aberhonddu, Powys LD3 0LU

SUT Y GWNAETHON NI DDATBLYGU EIN STRATEGAETH YN YSTOD 2016/17

MAI 2016

Bu Cyngor Sir Powys (CSP) a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP) yn datblygu fframwaith cynllunio

CAM 1: DATBLYGU EIN STRATEGAETH

Darparodd mwy na 1000 o aelodau o'r cyhoedd, staff a phobl a sefydliadau eraill rydyn ni'n gweithio gyda nhw eu barn, a chyfrannodd hyn at ddatblygu ein strategaeth ddrafft

MEHEFIN-AWST 2016:

Mân Weithdai ar 21 thema

TACHWEDD 2016

Digwyddiad Staff Iechyd a Gofal

RHAGFYR 2016

Digwyddiad Creu Gweledigaeth â'r Cyhoedd, Staff a Rhanddeiliaid

Datblygwyd dogfen ymgynghori'r strategaeth ddrafft o'r adborth

Strategaeth Iechyd a Gofal
I Bowys

Gweledigaeth hyd 2027 a thu hant




CAM 3: LANSIO'R STRATEGAETH

Lansio'r strategaeth 10 mlynedd ledled Powys

GORFFENNAF 2017

Lansio cyfnod nesaf y gwaith ledled y sir



MAWRTH 2017

Cabinet CSP a Bwrdd BIAP yn cymeradwyo Strategaeth Iechyd a Gofal Powys

CAM 2: GOFYN I BOBL AM EU BARN

- 23 o ddigwyddiadau Ymgysylltu Strategaeth Iechyd a Gofal, gyda 500+ o bobl
- 26 o Sioeau Teithiol a Digwyddiadau Asesu Lles mewn Trefi a Phentrefi ledled Powys – mewn llyfrgelloedd, canolfannau siopa, canolfannau cymunedol, ysbytai, marchnadoedd a garejis
- Cyrhaeddwyd cynulleidfau eang trwy'r cyfryngau cymdeithasol

IONAWR-CHWFROR 2017

Ymgysylltu Cam 2

Datblygwyd dogfen strategaeth ddiwygiedig o Adborth Cam 2



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd
Addysgu Powys
Powys Teaching
Health Board

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn gan y Tîm Rhaglen Strategaeth Iechyd a Gofal ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r tîm yn powys.engagement@wales.nhs.uk

Dyluniwyd yr adroddiad a'r darluniadau gan
©Scarlet Design Int. Ltd 2017 www.FranOHara.com

Eiddo Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys yw'r adroddiad hwn. Mae croeso ichi atgynhyrchu tudalennau unigol o'r adroddiad hwn, gyda'r gydnabyddiaeth a ganlyn "Detholiad o'r 'Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys' ©Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys, 2017"

